


Pwrpas y Cynllun Partneriaid yw rhoi hawl i aelod o staff sefydliad cyhoeddus ddefnyddio marc Cymraeg Clir. Y nod yw annog sefydliadau a chyrff cyhoeddus i fabwysiadu egwyddorion Cymraeg Clir wrth greu dogfennau cyhoeddus. Un o elfennau pwysica'r broses o greu'r math yma o ddogfennau yw ystyried a ydyn nhw'n hawdd eu darllen.

Drwy ymuno â Chynllun Partneriaid Cymraeg Clir, gallwch chi ennill yr hawl i aelod(au) o staff eich sefydliad weithredu fel golygydd Cymraeg Clir, a gosod marc Cymraeg Clir ar ei waith.

## PRISIAU'R CYNLLUN PARTNERIAID

(Rhaid ychwanegu TAW at yr holl brisiau. Gall y prisiau newid)

- (sy'n cynnwys hyfforddi, monitro a'r hawl i ddefnyddio'r marc tri mis ar ôl dechrau'r cyfnod hyfforddi).
- (sy'n cynnwys monitro a'r hawl i ddefnyddio'r marc).

## PATRWM YR HYFFORDDI A'R MONITRO

- hyfforddi un diwrnod[2] / casgliad cynhwysfawr o ganllawiau;
- : cyn cael yr hawl i ddefnyddio marc Cymraeg Clir, mae gofyn i olygydd y Sefydliad Partner gyflwyno tystiolaeth o'i allu i ddilyn egwyddorion Cymraeg Clir (trowch at yr adran "Hawl i staff Sefydliadau Partner ddefnyddio marc Cymraeg Clir").

Yn ddieithriad, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor, sy'n berchen ar nod masnach marc Cymraeg Clir. Ond mae Canolfan Bedwyr yn fodlon rhoi trwydded (mae croeso i chi ofyn am gopi) i Sefydliadau Partner, sy'n rhoi hawl i un aelod, neu ragor, o'i staff (Golygydd ion Partner) ddefnyddio'r marc. Mae amodau'r drefn i'w gweld yn yr adran Ennill yr hawl i ddefnyddio marc (ar)10d [(mae)li (ill )-9.9 (y)4 (rd)-3.9rai(d)-4 (,3.5 (aw

x sicrhau ansawdd unrhyw ddarn o waith sy'n arddangos y marc.

:

1 Rhaid i Sefydliad Partner enwi'r unigolyn (neu unigolion) a fydd yn gweithredu fel Golygydd Partner y sefydliad.

2 Rhaid i'r Golygydd Partner fod wedi dilyn cwrs hyfforddi Cymraeg Clir. (Mae pris blwyddyn gyntaf y Cynllun Partneriaid yn cynnwys cost y cwrs hyfforddi.)

3 Ar ôl y cwrs hyfforddi, bydd gofyn i'r Golygydd Partner gadw sampl o'i waith mewn portffolio. Rhaid anfon y portffolio (yn electronig neu ar ffurf copi caled) i Ganolfan Bedwyr o fewn tri mis i ddyddiad y cwrs hyfforddi. Dylai'r portffolio gynnwys 10-12 darn o waith sy'n nodweddiadol o waith cyffredinol y golygydd.

4 Bydd aelod o dîm Cymraeg Clir Canolfan Bedwyr yn monitro'r portffolio ac yn rhoi adborth ac arweiniad i'r Golygydd Partner.

5 Tri mis ar ôl dyddiad y cwrs hyfforddi, ac ar ôl cael sêl bendith tîm Cymraeg Clir Canolfan Bedwyr ar ei waith, caiff Golygydd Partner y Sefydliad Partner yr hawl i osod marc Cymraeg Clir ar ei waith.

6 Rhaid adnewyddu'r cytundeb hwn bob blwyddyn (trwy barhau'r drefn o anfon portffolio o waith i'w gymeradwyo unwaith y flwyddyn.)

7 Os nad yw gwaith y Golygydd Partner yn foddhaol, bydd gofyn i'r Sefydliad Partner drafod y sefyllfa â thîm Cymraeg Clir Canolfan Bedwyr. Gall y Prif Olygydd awgrymu dull o weithredu (er enghraifft, rhagor o hyfforddiant) a allai olygu y bydd y Sefydliad Partner yn mynd i fwy o gostau Os nad yw Sefydliad Partner yn gallu gweithredu fel hyn, neu os yw'n anfodlC -21